Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Tachwedd 2010 — Rhifyn 18

Yn y Rhifyn hwn:

•RSW Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru • Tystysgrifau Cofrestru Cerbydau • Cyngor i Yrwyr Tractorau • Helmedau Beicio Drewllyd •Arbrawf Profion Cyffuriau-a-Gyrru •Marchogaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd •Amser haf Sengl/Dwbl • Diogelwch Cerbydau'n Cwtogi ar Farwolaethau • Y Prif Arholwr Gyrru ar Facebook • Euro NCAP Advanced

Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru

Yng nghinio Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru ar 21 Medi fe gyflwynwyd eu gwobrau i enillwyr Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Cymru 2010. Cefnogir y gwobrau gan Motaquote, Brocer Yswiriant blaenllaw yng Nghymru a'r cwmni sydd y tu ôl i'r i-Kube www.i-kube.co.uk.

Ymhlith enillwyr y gwobrau eleni yr oedd athro, gwirfoddolwyr BikeSafe, pencampwr cymuned, deiliad trwydded McDonald's a'r tîm y tu ôl i'r dvd COW lwyddiannus.

Cliciwch yma i gael y manylion llawn.

Tystysgrif Cofrestru Cerbydau yn Fwy Diogel

Mae fersiwn newydd a mwy diogel o'r Dystysgrif Cofrestru Cerbydau, y V5C, wedi'i gyflwyno o fis Awst 2010 ymlaen.

Cyflwynwyd y dystysgrif gofrestru newydd ar ôl i amryw o dystysgrifau gwag gael eu dwyn yn 2006. Y nod yw lleihau'r risg bod modurwyr yn prynu cerbyd sydd wedi'i ddwyn neu wedi'i glonio.

Cyhoeddir y dogfennau newydd ers 15 Awst 2010 ar gyfer pob cerbyd sydd newydd ei gofrestru a phan fydd newid i gofrestriad sy'n bod yn barod, megis newid y ceidwad neu'r cyfeiriad.

O ganol y flwyddyn nesaf ymlaen, cyhoeddir y dystysgrif newydd i bob cerbyd arall pan gaiff ei aildrwyddedu neu pan geir hysbysiad ei fod oddi ar y ffordd.

Bydd y V5C las bresennol yn dal i fod yn ddilys ar gyfer y cerbydau hynny tan y ceir un newydd yn ei lle ac ni fydd y DVLA yn gofyn am i'r hen V5C gael ei hanfon yn ôl.

Dewch i weld beth sy'n newydd am y dystysgrif gofrestru newydd a chael cynghorion defnyddiol ynghylch prynu cerbyd sydd wedi'i ddefnyddio.

Cyngor i Weithredwyr Tractorau

Mewn ymateb i bryderon a godwyd yng Nghynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru, mae'r NFU wedi dosbarthu datganiad ynghylch diogelwch ar y ffyrdd i 20,000 o fusnesau fferm drwy ei e-newyddlen wythnosol.

http://www.nfuonline.com/News/Stay-safe-on-autumn-roads/

Helmedau Beicio sy'n Arogli

Mae amryw byd o fathau o helmedau beicio i'w cael, gan gynnwys modelau y gallwch chi eu plygu a rhai sydd â goleuadau fflachio ar eu cefn. Yn y dyfodol, fe ddechreuan nhw ollwng arogl arbennig os bydd angen cael un arall yn lle'r hen un. Bydd proses newydd yn gwneud i arogl ddod allan os bydd crac yn y defnyddiau plastig.

Unig ddiben helmedau beicio yw diogelu pen y beiciwr. Ond helmedau cwbl gadarn yn unig wnaiff hynny'n iawn. Yr argymhelliad, felly, yw prynu un newydd bob hyn a hyn, ond does ar neb eisiau taflu helmed sy'n ddigon da. Byddai'n well gwybod i sicrwydd pryd y mae angen gwneud hynny. Mae'n bosibl gwybod oherwydd proses newydd a ddatblygwyd gan wyddonwyr ymchwil yn Sefydliad Fraunhofer yn yr Almaen. Bydd defnyddiau polymer neu blastigion sydd wedi'u cynhyrchu gan y broses yn dechrau arogli os datblygant graciau bach. Bydd craciau mawr yn achosi drewdod mawr. Daw'r arogl o olewau arogleuog mewn microcapsiwlau.

http://news.cnet.com/8301-27083_3-20006978-247.html

Arbrawf Offer Profi Cyffuriau-a-Gyrru

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal arbrofion ar offer i brofi a yw gyrwyr o dan ddylanwad cyffuriau.

Gallai'r symudiad hwnnw arwain at gyflwyno'r dechnoleg ar draws holl heddluoedd Cymru, Lloegr a'r Alban cyn pen dwy flynedd.

Mae'n dilyn cyhoeddi adolygiad o broblem gyrru dan ddylanwad cyffuriau a ddaeth i'r casgliad bod angen newidiadau mawr.

Daeth yr adolygiad gan Syr Peter North, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, i'r casgliad bod problem gyrru dan ddylanwad cyffuriau yn "waeth o lawer" nag a awgrymir gan y ffigurau swyddogol.

Mae hynny'n rhannol am fod anhawster profi am gyffuriau yn golygu na chofnodir llawer o achosion.

Ar hyn o bryd, mae angen i'r heddlu gael meddyg i benderfynu a oes "cyflwr y gellid ei briodoli i gyffur" ar y sawl a ddrwgdybir, ac yna rhaid gwneud prawf gwaed.

Mae'n cymryd amser i feddyg gyrraedd gorsaf yr heddlu a gwneud archwiliad – a gallai hynny olygu bod y cyffuriau wedi gadael corff y sawl a ddrwgdybir cyn cymryd sampl o waed.

Mae rheswm arall dros gredu bod y ffigurau cyfredol ynghylch cymryd cyffuriau a gyrru - 56 o ddamweiniau angheuol a 207 o ddamweiniau y cafwyd anafiadau difrifol ynddynt yn 2008 - yn rhy isel. Os yw'r sawl a ddrwgdybir wedi cael prawf anadl a thros y terfyn ar gyfer yfed a gyrru, anaml y bydd yr heddlu yn gwneud profion pellach i benderfynu a yw cyffuriau'n bresennol hefyd.

Yn ddiweddar, rhoes y llywodraeth fanylebau i weithgynhyrchwyr i greu offer profi newydd. Y bwriad yw treialu'r cynhyrchion mewn gorsafoedd heddlu ymhen blwyddyn ac yna'u lledu i'r heddluoedd cyn pen dwy flynedd.

Marchogaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd yn Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Adran Diogelwch y Ffyrdd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cysylltu â Chlwb Merlod Llangeinwyr i'w helpu i hyfforddi pob un o'r cant o aelodau ynghylch marchogaeth a diogelwch ar y ffyrdd.

Cytunodd Adran Diogelwch y Ffyrdd yng Nghyngor Pen-y-bont i roi i Glwb Merlod Llangeinwyr gopïau am ddim o lyfrau ar ddiogelwch ar y ffyrdd mewn perthynas â cheffylau'n benodol, copïau o Reolau'r Ffordd Fawr a thabardau Gweledegd Uchel i'w rhoi i bob aelod a fyddai'n cwblhau ei hyfforddiant ffurfiol ac yn llwyddo yn y prawf arholi ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

Ar ôl gweld sut yn union y câi'r hyfforddiant ynghylch diogelwch ar y ffyrdd ei roi, cytunodd Arweinydd Tîm Rheoli Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Pen-y-bont, Trevor Taylor, a'r Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd, Gail Calford, y bydden nhw'n barod iawn i helpu Clwb Merlod Llangeinwyr. Meddai Gail Calford, "Roedd yn sialens newydd, ac i ni fel Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd byddwn ni bob amser yn awyddus i gefnogi rhaglenni arloesol ym maes diogelwch ar y ffyrdd, ond dyma'r tro cyntaf i ni gael cais i helpu gyda cheffylau …… ac ar raddfa mor fawr.

Yr oedd Gail Calford a Sarah Ness o'r Cyngor yng Ngwersyll Blynyddol haf 2010 y Clwb Merlod, a gynhaliwyd yn Ewenni, i gyflwyno'u llyfrau diogelwch ar y ffyrdd a'u tabardau gweledegd uchel i'r aelodau o Glwb Merlod Llangeinwyr a oedd wedi llwyddo i gwblhau'r rhan gyntaf o'u rhaglen hyfforddi. Meddai Mrs Marion Elliott, Comisiynydd Dosbarth y Clwb Merlod, "Rydyn ni'n ddiolchgar iawn iawn i'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae Trevor Taylor, Gail Calford a Sarah Ness wedi bod o gymorth aruthrol i ni ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb am eu help. Rydyn ni wrth ein bodd fod Gail a Sarah wedi treulio diwrnod gyda ni yn ein Gwersyll haf yn siarad â'r bobl ifanc am yr hyfforddiant y maen nhw wedi'i gael, ac am ei fanteision.

Mae'r ffordd mae'n marchogion ifanc ni wedi ymroi o ddifri i'w Hyfforddiant Diogelwch ar y Ffyrdd wedi gwneud argraff fawr arna i; maen nhw wedi bod yn glod iddyn nhw eu hunain ac i'n clwb. Mae'r bartneriaeth rhwng Clwb Merlod Llangeinwyr a Chyngor Pen-y-bont wedi bod yn un fuddiol a llwyddiannus dros ben."

Amser haf Sengl/Dwbl

Mae Cyngor Ymgynghorol y Senedd ar Ddiogelwch Trafnidiaeth (PACTS) yn gofyn am help i ddarbwyllo'r Senedd i bleidleisio o blaid Amser haf Sengl/Dwbl i arbed bywydau ar ein ffyrdd.

Bydd Mesur Aelod Preifat a gynigir gan Rebecca Harris yn destun dadl ym mis Rhagfyr. Mae'n galw am wneud ymchwil ar draws y polisïau gan edrych yn benodol ar yr effaith y gallai Amser haf Sengl/Dwbl ei chael, ac am arbrawf 3-blynedd ar sail y dystiolaethevidence.

Ers i PACTS ymuno â'r glymblaid Lighter Later ym mis Mawrth eleni maent wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ennyn cefnogaeth i Fesur Rebecca. Mae i Amser haf Sengl/Dwbl amrywiaeth mawr o fanteision, a chewch weld rhagor amdanyn nhw ar wefan Lighter Later.

Cewch wybod rhagor drwy ddarllen briffiad polisi PACTS.

Diogelwch Cerbydau'n Cwtogi ar Farwolaethau

Mae'r gwelliannau yn niogelwch cerbydau wedi cyfrannu at ostyngiad o 56% yn nifer y bobl fu farw mewn ceir dros yr 20 mlynedd diwethaf. Daw'r ffigurau o ystadegau'r Adran Drafnidiaeth a thystiant i'r arloesi yn y diwydiant cerbydau.

Rhwng 1989 a 2009, gostyngodd nifer y teithwyr mewn ceir a fu farw o 2,426 i 1,059, ac mae ffigurau diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth yn awgrymu bod cyfradd y gostyngiad yn cynyddu. O 2008 i 2009, bu gostyngiad o gymaint ag 16% yn nifer y teithwyr mewn ceir a gafodd eu lladd.

Mae'r llywodraeth yn cysylltu'r gostyngiad sylweddol hwnnw â datblygiadau diogelwch, gan gynnwys bagiau aer ac ABS. Mae RoadSafe yn llongyfarch peirianwyr a gweithgynhyrchwyr am eu cyfraniad, ond mae dyletswydd ar ddefnyddwyr ceir o hyd i yrru'n gyfrifol.

Mae ystadegau'r Adran Drafnidiaeth yn dangos i fethu ag edrych yn briodol fod yn ffactor a gyfrannodd at 38% o'r gwrthdrawiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu yn 2009. Mewn damweiniau a gynhwysai 27% o'r bobl a gafodd eu lladd, un ffactor cyfrannol, o leiaf, oedd torri'r terfyn cyflymdra neu oryrru o dan yr amgylchiadau.

Gan edrych at y dyfodol o ran atal damweiniau, bydd diogelwch ceir yn cynyddu oherwydd y dechnoleg fwyfwy soffistigedig. Cerbyd delfrydol RoadSafe yw un sy'n cymryd camau i rwystro gwrthdrawiadau. Efallai nad yw honno'n weledigaeth sydd mor bell ohoni â hynny. Yn eSafetyAware cewch chi wybod am y technolegau diweddaraf ym maes diogelwch.

Driving for Better Business yn dod â Neges Diogelwch i Gymru

Two Aeth dau o'r cyflogwyr mwyaf ym Mhrydain sydd ar flaen y gad wrth hyrwyddo rheoli'r risg i yrwyr galwedigaethol â neges diogelwch i fusnesau Cymru yn y digwyddiad mawr gan Driving for Better Business a gynhaliwyd ar y cyd â Heddlu'r De a Professional Driver Services (PDS)

Anogwyd cwmnïau Cymru gan British Telecom a Tesco.com, ill dau'n aelod-bencampwyr o'r ymgyrch Driving for Better Business a gefnogir gan y llywodraeth, i ganolbwyntio mwy ar ddiogelwch gyrru-wrth-weithio a chwtogi felly ar wrthdrawiadau ac ar gostau.

Daeth 70 o gynrychiolwyr sefydliadau yn y sectorau preifat a chyhoeddus yng Nghymru i ddigwyddiad Driving for Better Business Wales a gynhaliwyd yn Uned Hyfforddi Gyrwyr Heddlu'r De yng Nghaerdydd.

Yn ogystal â chlywed am y camau a gymerwyd gan British Telecom a Tesco.com i gynyddu diogelwch eu gweithwyr wrth yrru, a lleihau'r risg iddynt, clywodd y cynrychiolwyr gyflwyniadau hefyd gan amryw o arbenigwyr ar ddiogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys cyfarwyddwraig yr ymgyrch, Caroline Scurr, a Nick Croft, Prif Gwnstabl Cynorthwyol a chyfarwyddwr adran hyfforddi Heddlu'r De.

Meddai Rebecca Ashton o PDS, sydd â'i ganolfan ym Mro Morgannwg, "Peth cadarnhaol dros ben ar y diwrnod hwnnw oedd dealltwriaeth yr arbenigwyr ac awydd pob un o'r siaradwyr i rannu ei wybodaeth, ac yn sicr bydd wedi ysgogi'r rhai a oedd yno i feddwl am amryw o bosibiliadau."

Meddai ymhellach, "Bydd PDS yn dal i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a'r ymgyrch Driving for Better Business ledled Cymru. Rydyn ni'n gobeithio cynnal rhagor o ddigwyddiadau gyda'r ymgyrch yn y dyfodol."

Y Prif Arholwr Gyrru yn Lansio Tudalen Swyddogol ar Facebook

Bellach, gall hyfforddwyr ceir a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes diogelwch ar y ffyrdd gael gwybod yn gyson am weithgareddau Prif Arholwr Gyrru Prydain ar Facebook Facebook.

Mae Trevor Wedge o'r Asiantaeth Safonau Gyrru wedi lansio tudalen swyddogol ar Facebook – ac fe hoffai i chi ei ddilyn a chyfrannu at y gwaith involved.

Meddai Trevor: "Mae fy nhudalen ar Facebook yn ffordd wych o helpu fy nghydweithwyr proffesiynol i gael gwybod am y datblygiadau diweddara' yn y maes. Dyma un o'r llu o ffyrdd newydd sydd gan y DSA o roi gwybodaeth i bobl yn gyson."

Bydd yn bwydo i'w dudalen fanylion am yr hyn y mae'n gweithio arno, a phwy y mae'n siarad â nhw ar hyd a lled y wlad. O dro i dro, bydd yn cynnwys newyddion pwysig o'r DSA ar y tudalen.

Cewch anfon sylw i wal Facebook Trevor. Er na all ef ymateb bob amser, bydd yn darllen pob un ohonyn nhw. Edrychwch ar dudalen Trevor, ac i ddechrau ei ddilyn ar Facebook ewch i **facebook.com/trevorwedge**

Euro NCAP yn Datgelu Datblygiadau Arloesol Gorau Heddiw ym myd Diogelwch

Euro NCAP Advanced yw menter Euro NCAP mewn ymateb i'r datblygu cyflym ar y technolegau newydd sydd ar gael wrth brynu ceir nad oes asesiad annibynnol ohonynt. Drwy wobrwyo uwch-dechnolegau, mae Euro NCAP yn awr yn cynnig ysgogiad i gynhyrchwyr ceir i gyflymu gosod offer diogelwch pwysig yn eitemau safonol ar draws eu holl fodelau yn ogystal â chynnig canllawiau mwy cynhwysfawr i ddefnyddwyr ynghylch diogelwch ceir newydd a'u helpu i brynu'r car iawn.

Mae'r sefydliad wedi gwobrwyo'r set gyntaf o gynhyrchwyr am eu hymdrechion i ddatblygu nodweddion diogelwch newydd. Dyma'r uwch-dechnolegau a wobrwywyd yn 2010:

Audi Side Assist
BMW Assist Advanced eCall
Honda Collision Mitigation Braking System (CMBS)
Mercedes-Benz PRE-SAFE® a PRE-SAFE® Brake
Opel Eye
Peugeot Connect SOS a
Citroën Localized Emergency Call
Volkswagen Lane Assist
Volvo City Safety
Cewch wybod rhagor yma

Cysylltwch â'r Cynullydd

Cynullydd: Steve Baker, RoSPA sbaker@rospa.com

02920 250 600

Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.